Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Chwefror 2026

# Cynnwys

**Casgliadau ac argymhellion ..... 3**

Casgliadau ..... 3

Argymhellion ..... 3

**1. Cefndir ..... 4**

Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) ..... 4

**2. Y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ..... 4**

Trafod y Memoranda ..... 5

Pum gwelliant y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ..... 5

Safbwynt Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ..... 6

Ein barn ni ..... 7

# Casgliadau ac argymhellion

## Casgliadau

**Casgliad 1**. Fel Pwyllgor, rydym yn parhau i fod â safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion yng Nghymru sy'n derfynol sâl. O ganlyniad, ac yn unol â'n hadroddiad ar y memoranda cydsyniad blaenorol, nid ydym yn cynnig unrhyw farn ynghylch a ddylai'r Senedd gefnogi Memorandwm Rhif 3. Mae hyn yn parhau i fod yn fater o gydwybod i Aelodau unigol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Cyn y ddadl ar gydsyniad, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi:

- pam ei fod wedi dewis cynnwys dim ond y pum gwelliant a gyflwynwyd gan noddwr y Bil i'r pedwar cymal a enwir ym Memorandwm Rhif 3; ac

- o ystyried y tebygolrwydd y bydd o leiaf rhai o'r gwelliannau eraill i'r cymalau hynny yn rhoi sylw i faterion datganoledig, pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r gwelliannau hynny yn hynny o beth a pham y maent wedi'u hepgor o Femorandwm Rhif 3.

**Argymhelliad 2**. Cyn y ddadl ar gydsyniad, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o wybodaeth am ei benderfyniad i fabwysiadu dull cul wrth benderfynu pa ddarpariaethau o'r Bil sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly'n destun cais cydsyniad. Un o ganlyniadau uniongyrchol y penderfyniad hwn yw y gallai gyfyngu ar gyfranogiad y Senedd mewn penderfyniad o bwys sylweddol i'r cyhoedd mewn maes polisi sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth. O ystyried arwyddocâd y pwnc dan sylw a chryfder y dadleuon budd y cyhoedd, rydym o'r farn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi mwy o wybodaeth am ei benderfyniad yn y parth cyhoeddus, ac y byddai gwneud hynny'n bosibl heb danseilio'r cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo ar y mater hwn.

# 1. Cefndir

### Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

**1.** Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)[1] ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Bil aelod preifat ydyw, a noddwyd gan Kim Leadbeater, AS Spen Valley, yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Arglwydd Falconer o Thoroton yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**2.** Mae'r Bil yn ymwneud â rhoi dewis i bobl ar ddiwedd eu hoes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyn, ofyn am gymorth i ddod â'u bywyd eu hunain i ben, a chael y cymorth hwnnw.

**3.** Ar hyn o bryd, yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961, mae'n drosedd cynorthwyo neu annog yn fwriadol hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad gan berson arall. Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn nodi, os bydd unrhyw berson yn cynorthwyo oedolyn sy'n derfynol sâl i ddod â'i fywyd i ben yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Bil, na fydd cymorth o'r fath yn drosedd o dan adran 2. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r ymarferydd meddygol cofrestredig, nac unrhyw berson arall sy'n helpu'r person sy'n derfynol sâl i geisio cymorth o dan y Ddeddf, yn wynebu atebolrwydd troseddol am wneud hynny.

**4.** Cyflawnir amcan polisi'r Bil yn gyntaf drwy ddiwygio Deddf Hunanladdiad 1961 i warchod y rhai sy'n gweithredu yn unol â'r Bil rhag atebolrwydd troseddol. Yn ail, fe'i cyflawnir drwy reoleiddio sut y mae rhaid darparu cymorth er mwyn elwa ar y warchodaeth honno. Felly, os bydd person yn cynorthwyo hunanladdiad rhywun arall heblaw yn unol â'r Bil, bydd hynny'n parhau i fod yn drosedd o dan adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961.

# 2. Y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**5.** Ar 9 Ebrill 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("yr Ysgrifennydd Cabinet") femorandwm cydsyniad deddfwriaethol[2] ("y Memorandwm") ar y Bil.

[1] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus
[2] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

**6.** Gosodwyd Memorandwm atodol, "Memorandwm Rhif 2",[3] ar 4 Gorffennaf 2025. Roedd y memorandwm hwn yn ymwneud â gwelliannau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2025.

**7.** Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach, "Memorandwm Rhif 3"[4] ar 23 Rhagfyr 2025. Mae'r memorandwm hwn yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynir fel rhan o'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r cyfnod hwnnw'n dal i fynd rhagddo ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, gyda gwelliannau i'w hystyried a phenderfyniad i'w wneud arnynt o hyd.

### Trafod y Memoranda

**8.** Rydym wedi trafod ac adrodd yn flaenorol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Rhif 2.[5]

**9.** Ar 13 Ionawr 2026, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 3 atom gyda dyddiad cau o 20 Ionawr ar gyfer cyflwyno adroddiad, a gafodd ei ymestyn wedi hynny i 23 Chwefror 2026. Cyfeiriwyd Memorandwm Rhif 3 hefyd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**10.** Yn yr amser oedd ar gael, nid oeddem yn gallu ymgynghori ar Femorandwm Rhif 3, er inni ystyried cynnwys y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 15 Ionawr 2026.

## Pum gwelliant y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**11.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod cyfanswm o 1,159 o welliannau wedi'u cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi rhwng 14 Tachwedd 2025 ac 18 Rhagfyr 2025, ac y disgwylir i'r nifer hwn gynyddu wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r Cyfnod Pwyllgor. Mae'n mynd ymlaen i nodi bod Noddwr y Bil, hyd at 16 Rhagfyr 2025, wedi cyflwyno 36 o welliannau, a bod pump ohonynt wedi'u nodi fel rhai sy'n ymwneud â materion datganoledig. Mae'n nodi ymhellach bod Memorandwm Rhif 3 wedi'i osod ar adeg lle mae'r pum gwelliant hyn wedi'u cyflwyno gan Noddwr y Bil ond nad ydynt wedi cael eu cytuno'n ffurfiol gan Dŷ'r Arglwyddi eto.[6]

[3] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)
[4] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Llywodraeth Cymru
[5] Senedd Cymru – Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)
[6] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 4-5

**12.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad mewn perthynas â phum gwelliant i bedwar cymal, sef cymalau 47, 49, 50 a 55.[7]. Mae paragraffau 13 i 17 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi crynodeb o'r gwelliannau hyn:

- Cymal 47 (fel y'i diwygiwyd gan welliant 784) – Adrodd ar Weithredu'r Ddeddf: sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd ar weithredu'r Ddeddf. Mae'r gwelliant yn mewnosod is-adran newydd (3A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth adrodd o dan yr adran hon;
- Cymal 49 (fel y'i diwygiwyd gan welliannau 804 ac 809) – Monitro gan y Comisiynydd: sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Marw â Chymorth fonitro, ac adrodd yn flynyddol, ar weithrediad y Ddeddf. Mae'r gwelliant cyntaf i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol gynnwys adroddiad diweddaraf y Bwrdd Cynghori ar Anabledd a sefydlir gan y Bil. Mae'r ail welliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Bwrdd Cynghori ar Anabledd wrth baratoi adroddiad blynyddol;
- Cymal 50 (fel y'i diwygiwyd gan welliant 824) – Adolygiad o'r Ddeddf hon: sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu ac adrodd ar weithrediad y Ddeddf chwe blynedd ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth gynnal yr adolygiad hwnnw;
- Cymal 55 (fel y'i diwygiwyd gan welliant heb rif sydd i'w gadarnhau) – Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau: sy'n diwygio pŵer arfaethedig Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yng nghymal 42 i wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer marw â chymorth yn wirfoddol. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y maent yn eu hystyried yn briodol cyn arfer y pŵer hwnnw.

## Safbwynt Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

**13.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn niwtral ar fater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion sy'n derfynol sâl. Mae Llywodraeth

[7] Memorandwm Rhif 3, paragraff 12

Cymru yn nodi ei bod hefyd, drwy hynny, yn niwtral ynghylch pa mor priodoldeb y mater hwn ac ynghylch ei gynnwys mewn Bil y DU.[8]

**14.** Yn fwy penodol mewn perthynas â Memorandwm Rhif 3, mae paragraff 17 yn nodi:

> *"Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn a byddaf yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r sefyllfa hon wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy weddill y cyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi."*

## Ein barn ni

**15.** Fel Pwyllgor, rydym yn parhau i gymryd safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion sy'n derfynol sâl. Mae ein hystyriaeth o'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) wedi canolbwyntio'n llwyr ar ddarpariaethau'r Bil hwnnw sy'n destun y tri memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd.

**16.** Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig pwysleisio na fydd y ddadl cydsyniad ar y tri memorandwm ar gyfer y Bil hwn sydd wedi'u gosod hyd yn hyn yn ddadl am egwyddor marw â chymorth i oedolion sy'n derfynol sâl yng Nghymru. Yn hytrach, bydd yn ddadl ynghylch a yw'r Senedd, os bydd y Bil hwn yn parhau ar ei hynt drwy Senedd y DU, yn cydsynio i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru drwy'r GIG (a thrwy estyniad, i Weinidogion Cymru benderfynu pryd y dylai hynny ddigwydd), a threfniadau llywodraethu cysylltiedig fel y nodir yn y Bil. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig, ac ni ddylid cymysgu'r ddau fater.

**17.** Ni fydd penderfyniad gan y Senedd i roi cydsyniad i'r memoranda hyn o reidrwydd yn arwain at ddarparu gwasanaethau marw â chymorth gan y GIG yng Nghymru. Bydd hynny'n dibynnu ar a fydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dewis arfer y pŵer i wneud rheoliadau y mae'r Bil hwn yn ei roi iddi, a sut y bydd hynny'n digwydd. Yn hytrach, byddai penderfyniad gan y Senedd i roi cydsyniad i'r memoranda hyn (yn amodol ar y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol) yn rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer

[8] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 7 a 23

gwasanaethau o'r fath yn y GIG yng Nghymru, a fyddai'n destun craffu gan y Senedd, y cyhoedd a rhanddeiliaid.

**18.** Yn ein hadroddiad blaenorol, gwnaethom dynnu sylw at y potensial i argaeledd gwasanaethau marw â chymorth fod yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Gallai hyn fod am ddau reswm. Naill ai oherwydd bod y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r memoranda hyn, ac os felly, mae'n rhesymol disgwyl i bwerau Gweinidogion Cymru gael eu dileu o'r Bil drwy welliant pellach; neu oherwydd bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r memoranda (a bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol), ond bod Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dewis peidio â chyflwyno rheoliadau neu'n gwneud hynny ar adeg wahanol i Loegr (neu'n gwneud darpariaeth wahanol).

**19.** Rydym am dynnu sylw, unwaith eto, at oblygiadau sylweddol dull trawsffiniol anghymesur, a fyddai'n debygol o gynnwys ansicrwydd ac anghydraddoldeb i gleifion, a heriau gweithredol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

**Casgliad 1.** Fel Pwyllgor, rydym yn parhau i fod â safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion yng Nghymru sy'n derfynol sâl. O ganlyniad, ac yn unol â'n hadroddiad ar y memoranda cydsyniad blaenorol, nid ydym yn cynnig unrhyw farn ynghylch a ddylai'r Senedd gefnogi Memorandwm Rhif 3. Mae hyn yn parhau i fod yn fater o gydwybod i Aelodau unigol.

**20.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf, rydym yn ymwybodol iawn bod y Bil yn dal i fynd drwy ei gyfnodau diwygio yn Senedd y DU. O ganlyniad, nid yw ei ffurf derfynol, sefydledig yn hysbys ar hyn o bryd, ac nid oes arwydd clir o sut olwg fydd ar y ffurf derfynol honno yn y pen draw, yn enwedig o ystyried y nifer fawr o welliannau sydd wedi'u cyflwyno i'w hystyried yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**21.** Wrth gyflwyno Memorandwm Rhif 3, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis ceisio cydsyniad ar gyfer pum gwelliant i bedwar cymal yn unig, ac nid yw'r gwelliannau eraill i'r un cymalau hynny yn destun y cais am gydsyniad. Ymddengys mai'r rhesymeg dros hyn yw bod y pum gwelliant hynny wedi'u cyflwyno gan noddwr y Bil, fodd bynnag, nid oes unrhyw warant y byddant, fel y cyfryw, yn cael eu cytuno.

**22.** Mae'n ymddangos yn debygol y bydd o leiaf rhai o'r gwelliannau eraill i'r cymalau hynny (h.y. y gwelliannau nad ydynt wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 3) yn rhoi sylw i faterion datganoledig, ond nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet

wedi egluro pa asesiad a wnaed o'r gwelliannau hynny yn hynny o beth, a pham y maent wedi'u hepgor o'r Memorandwm.

**23.** Er eglurder, rydym o'r farn bod rhinwedd mewn eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam ei bod wedi mabwysiadu'r dull hwn.

**Argymhelliad 1.** Cyn y ddadl ar gydsyniad, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi:

- Pam ei fod wedi dewis cynnwys dim ond y pum gwelliant a gyflwynwyd gan noddwr y Bil i'r pedwar cymal a enwir ym Memorandwm Rhif 3; ac
- O ystyried y tebygolrwydd y bydd o leiaf rhai o'r gwelliannau eraill i'r cymalau hynny yn rhoi sylw i faterion datganoledig, pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r gwelliannau hynny yn hynny o beth a pham y maent wedi'u hepgor o Femorandwm Rhif 3.

**24.** Rydym wedi cofnodi ein pryderon yn flaenorol ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull cul o ymdrin â'r cwestiwn o gydsyniad gyda'r Bil hwn, ac wedi argymell y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi ei resymau dros fabwysiadu'r dull hwn. Yn ei ymateb i'n hadroddiad blaenorol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Er bod iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth, daeth ein hasesiad i'r casgliad mai dim ond y cymalau a nodwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â materion datganoledig ac felly dim ond y rhai hynny y mae cydsyniad gan y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer o dan Reol Sefydlog 29. Nod y Bil yw galluogi oedolion sy'n derfynol sâl i gael cymorth cyfreithlon i ddod â'u bywyd eu hunain i ben. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn ei ddefnyddio i gyflawni hyn yw drwy addasu'r drosedd bresennol yn adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

**25.** Rydym wedi ystyried ei ymateb, ac rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai dull ehangach wedi dod i'r casgliad bod angen cydsyniad ar gyfer y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil, gan y bydd darpariaethau craidd y Bil yn cael eu cyflawni mewn lleoliad meddygol, gyda'r nod polisi o leddfu poen a dioddefaint. Gellid ystyried yn rhesymol, felly, eu bod yn rhoi sylw i fater 'iechyd' sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth.

**26.** Felly, rydym yn parhau i fod o'r farn y gallai ac y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi eglurhad pellach o'i benderfyniad i beidio â mabwysiadu dull ehangach o

ymdrin â mater cydsyniad. Un o ganlyniadau uniongyrchol y penderfyniad hwn yw y gallai gyfyngu ar gyfranogiad y Senedd mewn penderfyniad o bwys sylweddol i'r cyhoedd mewn maes polisi sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth. O ystyried arwyddocâd y pwnc dan sylw a chryfder y dadleuon budd y cyhoedd, rydym o'r farn y byddai'n bosibl i'r Ysgrifennydd Cabinet roi mwy o wybodaeth am ei benderfyniad yn y parth cyhoeddus, heb danseilio'r cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo ar y mater hwn.

**Argymhelliad 2.** Cyn y ddadl ar gydsyniad, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o wybodaeth am ei benderfyniad i fabwysiadu dull cul wrth benderfynu pa ddarpariaethau o'r Bil sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly'n destun cais cydsyniad. Un o ganlyniadau uniongyrchol y penderfyniad hwn yw y gallai gyfyngu ar gyfranogiad y Senedd mewn penderfyniad o bwys sylweddol i'r cyhoedd mewn maes polisi sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth. O ystyried arwyddocâd y pwnc dan sylw a chryfder y dadleuon budd y cyhoedd, rydym o'r farn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi mwy o wybodaeth am ei benderfyniad yn y parth cyhoeddus, ac y byddai gwneud hynny'n bosibl heb danseilio'r cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo ar y mater hwn.